Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFEN

# Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)

## Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data


**Cyhoeddwyd gyntaf: 3 Tachwedd 2025**

**Diweddarwyd ddiwethaf:**

**Cynnwys**


**Cam 1: Nodi'r angen am Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data .................................. 3**
**Cam 2: Cynigion y polisi........................................................................................ 4**
**Cam 3: Casglu data personol.................................................................................. 5**
**Cam 4: Ymgynghori ................................................................................................ 11**
**Cam 5: Angenrheidrwydd a chymesuredd................................................................ 12**
**Cam 6: Nodi a rheoli risgiau.................................................................................... 13**
**Cam 7: Crynodeb o'r prif egwyddorion data ........................................................... 15**

**Cam 1: Nodi'r angen am Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data**

1. **Deddfwriaeth sylfaenol yw'r Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) arfaethedig. Mae asesiad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ac Erthygl 36(4) (o GDPR y DU) yn cadarnhau bod y cynigion yn cynnwys casglu data personol a data categori arbennig. Felly, datblygwyd yr asesiad o'r effaith ar ddiogelu data hwn. Cyflwynwyd ffurflen Erthygl 36(4) i'r ICO ar 28 Chwefror 2025 ac ymrwymodd Llywodraeth Cymru i roi rhagor o fanylion am y cynnig (drwy gynnal asesiad o'r effaith ar ddiogelu data) cyn i'r broses Erthygl 36(4) ddod i ben. Rhannwyd hyn ar 19 Medi.**

2. **Diben yr asesiad hwn yw nodi goblygiadau diogelu data a phreifatrwydd y darpariaethau deddfwriaethol. Mae'n ystyried risgiau sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth, ond hefyd risgiau ehangach i hawliau a rhyddid unigolion. Mae lefelau risg wedi'u hasesu, gan ystyried tebygolrwydd a difrifoldeb unrhyw effaith ar unigolion. Mae hefyd yn helpu i leihau risgiau ac asesu a yw'r risgiau sy'n weddill yn gyfiawn, yn angenrheidiol ac yn gymesur.**

3. **Nod yr asesiad hwn yw ein helpu i ymgorffori cydymffurfiaeth diogelu data yn y ddeddfwriaeth. Bydd hyn yn dylanwadu ar sut mae'r cynigion yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith. Darperir ar gyfer llawer o'r manylion mewn is-ddeddfwriaeth sydd eto i'w llunio (ac a fydd yn ddibynnol ar y Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol).**

4. **Dogfen fyw yw hon a fydd yn cael ei diweddaru yn unol ag unrhyw bolisi neu newidiadau eraill yn ystod y broses ddeddfwriaethol. Fe'i datblygwyd ochr yn ochr â thrafodaethau gyda rhanddeiliaid am y polisi. Mae'r fersiwn hon o'r ddogfen yn adlewyrchu'r Bil fel y'i cyflwynwyd i'r Senedd yn 2025.**

5. **Mae'r Bil yn ei gwneud yn gyfrifoldeb ar Weinidogion Cymru i sefydlu cynllun trwyddedu. Wrth arfer y pwerau hyn, bydd Llywodraeth Cymru ac unrhyw bartneriaid cyflenwi yn rhoi sylw i unrhyw ddyletswyddau statudol o dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Yn yr un modd, ni fydd unrhyw gasglu data a wneir yn ofynnol gan y Bil yn lleihau effaith Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (UK GDPR) y mae'n rhaid i bob sefydliad dan sylw gadw ato.**

6. **Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid drwy gydol y broses o ddatblygu'r polisi (gweler Pennod 4 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil).**

**Cam 2: Cynigion y polisi**

**Mae'r Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) ("y Bil") yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol i gynllun trwyddedu ar gyfer llety ymwelwyr yng Nghymru, gan ddechrau gyda llety hunanddarpar. Bydd y cynllun hwn yn cefnogi twristiaeth yng Nghymru, drwy sicrhau ymwelwyr bod llety yn bodloni'r safonau y byddent yn eu disgwyl a darparu trefn glir i ddarparwyr.**

**Mae'r cynllun trwyddedu hwn yn ategu'r gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr, fel y nodir yn Neddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 ("Deddf VARL"). O dan y Ddeddf honno, bydd Awdurdod Cyllid Cymru (WRA) yn sefydlu, cynnal a chyhoeddi'r gofrestr o ddarparwyr, a fydd hefyd yn manylu ar y math o safleoedd y maent yn eu gweithredu ledled Cymru a'u lleoliad. Gall yr wybodaeth hon fod o ddiddordeb i awdurdodau lleol, ymwelwyr, busnesau ac ymchwilwyr, a bydd yn llywio'r cynllun trwyddedu yn y dyfodol.**

**Bydd y Bil yn ategu mesurau eraill a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r heriau sy'n deillio o nifer uchel o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr mewn ardaloedd penodol yng Nghymru. Canlyniad eilaidd y Bil hwn fydd sicrhau mwy o gysondeb rhwng y drefn rheoleiddio llety ymwelwyr hunanddarpar â threfn rheoleiddio'r sector preifat, gan gyflwyno safonau cyson ar gyfer y llety hwnnw, a monitro cydymffurfiaeth â'r safonau hynny.**

**Mae'r Bil hefyd yn creu Cod cyfraith Cymru ar dwristiaeth a fydd yn ymgorffori'r ddeddfwriaeth bresennol ar ddatblygu twristiaeth yng Nghymru, gyda'r bwriad o wella hygyrchedd deddfwriaeth twristiaeth ]**

**Cam 3: Casglu data personol**

8. **Mae'r Bil yn creu gofynion newydd i gasglu a rhannu data personol gan ddarparwyr llety ymwelwyr fel rhan o gynllun trwyddedu.**

9. **Gan fod y Bil yn creu'r cyfrifoldebau newydd hyn, byddwn yn dibynnu ar Erthygl 6(1)(c) GDPR y DU lle "mae prosesu yn angenrheidiol i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolydd yn ddarostyngedig iddi" fel sail statudol ar gyfer prosesu'r data. Gall erthygl 6(1)(e) sy'n nodi "mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn ymgymryd â thasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolydd" fod yn berthnasol hefyd. Mae saith achos lle mae'r Bil yn creu pwerau i brosesu data personol:**

   - **Creu cofrestr o ddarparwyr llety trwyddedig, y bydd rhan ohoni yn cael ei chyhoeddi**
   - **Penderfynu ar geisiadau am drwyddedau**
   - **Cynnal arolygiadau o safleoedd neu ddogfennau er mwyn gwirio cydymffurfiaeth**
   - **Cyhoeddi hysbysiadau cosb neu erlyn pan gyflawnir trosedd**
   - **Rhannu gwybodaeth gyda rheoleiddwyr eraill i gefnogi'r gwaith o arfer swyddogaethau perthnasol**
   - **Ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gynnwys rhif cofrestru yn eu deunyddiau hysbysebu**
   - **Gofyn i ddarparwyr sicrhau bod gwybodaeth am eu llety ar gael i ymwelwyr**

10. **Yn rhan o'r asesiad rydym wedi edrych ar natur y data a fydd yn cael eu prosesu yn sgil pob un o'r pwerau newydd. Rydym hefyd wedi ystyried unrhyw risgiau a sut y gellir lliniaru'r rhain. Mae'r asesiad yn ymdrin â'r meysydd canlynol:**

   - **y pwerau sydd gan y Bil i gasglu a defnyddio data;**
   - **sut y bydd y data yn cael eu cynnal a'u cadw;**
   - **a fydd angen rhannu'r data a sut y gellid gwneud hynny.**
   - **natur y data, gan ei fod yn cynnwys data categori arbennig neu ddata troseddau mewn rhai sefyllfaoedd;**
   - **faint o ddata fydd yn cael eu casglu a'u defnyddio, pa mor aml y bydd yn cael eu casglu a pha mor hir y bydd yn cael eu cadw;**
   - **cyd-destun y prosesu, yn enwedig ei effaith ar unigolion;**
   - **diben y data, yr hyn y mae'r Bil yn bwriadu ei gyflawni a beth yw manteision prosesu data.**

11. **Bydd gweithredu'r cynllun trwyddedu yn ddarostyngedig i asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data ar wahân, a fydd yn nodi'r risgiau ar lefel weithredol agosach.**

12. **Mae'r Bil yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru er mwyn iddynt reoli cynllun trwyddedu ar gyfer darparwyr. Mae hyn yn golygu mai Gweinidogion Cymru fydd y rheolwr data ar gyfer gweinyddu'r cynllun trwyddedu.**

13. **Os gwneir trefniadau asiantaeth er mwyn i sefydliad arall gefnogi Gweinidogion Cymru i arfer y swyddogaethau hynny (er enghraifft os yw Awdurdod Cyllid Cymru yn cynnig cymorth i reoli'r system ar-lein ar gyfer ceisiadau trwyddedu i integreiddio hyn â'r system gofrestru), gallant fod yn rheolydd data ar gyfer gwybodaeth a gesglir.**

14. **Mae'r Bil yn creu pwerau ar gyfer rhannu gwybodaeth â rheoleiddwyr eraill lle bo angen i gefnogi'r gwaith o gyflawni swyddogaethau trwyddedu. Pan fydd gwybodaeth yn cael ei rhannu â rheoleiddwyr eraill, gallant fod yn rheolwyr data ar gyfer yr wybodaeth honno.**

**Casglu a defnyddio'r data**

15. **Cynigir y byddai angen trwydded ar fusnesau llety ymwelwyr yng Nghymru er mwyn iddynt weithredu. Ar y cychwyn, bydd hyn yn berthnasol i is-set o lety hunanddarpar yn unig. Fodd bynnag, ein bwriad yw bod mathau eraill o lety ymwelwyr yn cael eu cynnwys yn y dyfodol.**

16. **Mae'r cynllun hwn yn ategu'r gofrestr o bobl sy'n darparu llety ymwelwyr fel y nodir yn Neddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) etc. (Cymru) 2025. Yn rhan o'r broses drwyddedu arfaethedig, bydd angen iddynt roi data personol a gwybodaeth benodol sy'n gysylltiedig â'u busnes.**

17. **Bydd y rhan fwyaf o'r data personol sydd i'w prosesu at ddibenion y drwydded wedi cael eu casglu gan Awdurdod Refeniw Cymru (WRA) fel y nodir yn Neddf VARL.**

18. **Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr roi gwybodaeth bersonol fel rhan o ymgeisio am drwydded. Bydd hynny'n cynnwys gwybodaeth am y gofrestr a sefydlwyd o dan Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) mewn perthynas â'r darparwyr ac adeiladau perthnasol, yn ogystal â thystiolaeth i alluogi Gweinidogion Cymru i asesu a ydynt yn bodloni gofynion trwyddedu mewn perthynas â diogelwch tân, trydanol, nwy a charbon monocsid, yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a hyfforddiant.**

19. **Nid yw gweithdrefnau gweithredol wedi'u datblygu eto. Rydym yn rhagweld y bydd y rhan fwyaf o'r data naill ai'n cael eu rhannu gyda'r awdurdod trwyddedu gan yr awdurdod cofrestru (WRA) os yw'r darparwyr yn cydsynio, neu eu llenwi ymlaen llaw o'r gofrestr fel y gall gwrthrych y data wirio a chadarnhau cyn cyflwyno cais am drwydded. Bydd hyn yn cynnwys enw, cyfeiriad busnes a gwybodaeth gyswllt y darparwr, yn ogystal â gwybodaeth am y llety y maent yn ei ddarparu, gan gynnwys y cyfeiriad, y math o lety a ddarperir, a nifer y bobl sy'n gallu cysgu yn y llety. Bydd unrhyw ddata pellach a gesglir i gefnogi cais am drwydded neu gamau gorfodi (ee tystysgrif diogelwch nwy i dystio cydymffurfiaeth â'r amod trwydded gyfatebol), yn cael eu casglu gan wrthrych y data.**

20. **Mae Rhan 4 o'r Bil hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r WRA weithio gyda'i gilydd i gynnal cyfeiriadur cyhoeddus o lety ymwelwyr.**

**Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth y mae'n ofynnol i'r WRA ei chyhoeddi eisoes o dan Ddeddf VARL yn ogystal â manylion unrhyw drwydded berthnasol a ddelir mewn perthynas â'r llety hwnnw.**

21. **Mae'r Bil yn nodi'r wybodaeth ganlynol a fydd yn cael ei chyhoeddi am drwydded:**

   a. **Y llety y mae trwydded yn ymwneud ag ef**
   b. **Y safle lle darperir y llety hwnnw**
   c. **Y rhif cofrestru a ddyroddwyd mewn perthynas â'r safle hwnnw**
   d. **Y dyddiad y rhoddwyd neu adnewyddwyd y drwydded**
   e. **Y dyddiad y mae'r drwydded yn dod i ben**
   f. **Manylion unrhyw amodau ychwanegol sydd ynghlwm wrth y drwydded**
   g. **Manylion unrhyw ddiwygiadau i'r drwydded**

**Cynnal a chadw a rheoli'r data**

22. **Bydd asesiad ar wahân yn cael ei gynnal pan fo'r ddeddf yn cael ei rhoi ar waith a fydd yn ymdrin ag effeithiau diogelu data pellach. Fodd bynnag, y bwriad yw y bydd y data yn cael eu cadw i safonau diogelwch a chadw cofnodion priodol. Bydd hyn yn cynnwys gweithio i amserlen gadw a gwaredu gyhoeddedig. Bydd y system sylfaenol yn cefnogi rhannu data a rhoi unrhyw ddiweddariadau ar waith neu gywiro gwallau yn unol â deddfwriaeth GDPR y DU a Deddf Diogelu Data'r DU (DPA) 2018. Yn ogystal â'r ddeddfwriaeth ar gyfer y polisi hwn, bydd hysbysiadau preifatrwydd yn amlinellu'r fframwaith hwn i ddefnyddwyr gwasanaethau perthnasol a phartïon eraill sydd â diddordeb.**

**Rhannu data**

23. **Bydd yr wybodaeth sy'n ymwneud â darparwyr trwyddedig yn cael ei chynnwys ochr yn ochr â'r gofrestr gyhoeddus sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd fel y nodir yn y Ddeddf VARL. Mae pŵer gan Weinidogion Cymru i rannu'r data trwyddedu gyda phrif reoleiddwyr at ddibenion gorfodi, sef awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol, cyd-bwyllgorau corfforaethol, y gwasanaethau tân neu WRA ac i'r gwrthwyneb.**

24. **Prif fantais rhannu data rhwng rheoleiddwyr yw cefnogi eu heffeithiolrwydd wrth gyflawni eu swyddogaethau. Gall y rheoleiddiwr perthnasol fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a godir, gan olygu y bydd awdurdodau a darparwyr yn osgoi gwneud yr un gwaith neu gyflwyno'r un wybodaeth i sawl rheoleiddiwr.**

25. **Bydd y rhan fwyaf o'r data a gyhoeddir mewn perthynas â llety ymwelwyr eisoes ar gael i'r cyhoedd drwy'r gofrestr gyhoeddus a grëwyd gan Ddeddf VARL, gan ychwanegu gwybodaeth am drwyddedu at ddibenion hyrwyddo llety yng Nghymru a sicrhau bod ymwelwyr yn gwybod bod y safonau wedi'u bodloni fel y nodir uchod. Mae'r Bil hwn yn nodi'r wybodaeth sydd ei hangen ac y gellir cyhoeddi'r wybodaeth.**

**Natur y data**

26. **Nid oes unrhyw fwriad i gasglu data categori arbennig Erthygl 9 GDPR y DU yn rheolaidd. Fodd bynnag, gallai rhywun gasglu data o ganlyniad i gamau gorfodi. Er enghraifft, gallai ymchwiliad i ddarparwr llety ddarganfod data categori arbennig.**

27. **Bydd Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am erlyn y troseddau a grëwyd yn y bil. Yn ystod ymchwiliadau ac achosion gallant gael data Erthygl 10 ar droseddau troseddol, a bydd angen i drefniadau gweithredol ar gyfer y rhain fod yn destun eu hasesiad eu hunain.**

28. **Nid oes unrhyw fwriad i gasglu data ar droseddau eraill yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rheoleiddwyr eraill yn dymuno rhannu gwybodaeth am droseddau a gyflawnwyd mewn perthynas â diogelwch tân, fel y gellir cymryd camau gorfodi priodol lle mae hyn yn gyfystyr â thorri amodau'r drwydded.**

29.

**Y data a gesglir**

30. **Mae'r data a gesglir wedi'u nodi yn adrannau 18-20,  29-31 a 36 o'r Bil. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i ofyn am ragor o wybodaeth os yw'n angenrheidiol i brosesu ceisiadau Mae pŵer ganddynt hefyd i ofyn am wybodaeth o dan  adrannau 2, 0 a 2, 9, pan fo hynny'n angenrheidiol iddynt allu cyflawni eu swyddogaethau, neu'n hwyluso'r gwaith o gyflawni eu swyddogaethau, yn enwedig at ddibenion penderfynu a yw darparwr yn cydymffurfio ag amodau ei drwydded. Nid yw'r pŵer hwn yn caniatáu iddynt gasglu gwybodaeth os yw datgelu'r wybodaeth wedi'i wahardd gan ddeddfwriaeth arall.**

31. **Mae'r data yn angenrheidiol i sicrhau uniondeb y cynllun trwyddedu, ac yn angenrheidiol i gefnogi camau gorfodi fel y gall gyflawni ei ddiben o hyrwyddo cydymffurfiaeth llety yng Nghymru â'r safonau gofynnol a ragnodir gan y cynllun.**

**I ba raddau y cesglir data**

32. **Ar hyn o bryd nid oes data cyflawn i amcangyfrif yn gywir i ba raddau y cesglir data. Mae Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth gan awdurdodau lleol am faint o lety sydd ledled Cymru. Nododd yr adroddiad data stoc gwely diweddaraf, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2022[1], fod 16,600 o**

[1] Crynodeb o Ddata ynghylch Stoc Welyau Cymru: y sefyllfa ym mis Mehefin 2022 | LLYW.CYMRU

**sefydliadau llety yng Nghymru. Mewn cyferbyniad, mae'r Gofrestr Busnes Rhyngadrannol (IDBR)[2] yn nodi bod 1,875 o fusnesau wedi'u dosbarthu fel llety (SIC 55) yng Nghymru yn 2024.**

33. **Mae ystyriaeth fanylach o nifer posibl y darparwyr llety yr effeithir arnynt yng Nghymru wedi'i nodi yn yr asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer y Bil, ond ein hamcangyfrif gorau yw yr effeithir ar 15,000 o ddarparwyr.**

34. **Mae hyn yn seiliedig ar yr adroddiad *Lighthouse Hosts, listings and bed spaces of short-term rental through online collaborative economy platforms,* diweddar sy'n amcangyfrif 37,357 o lety gosod tymor byr mewn adeiladau hunangynhwysol (ac eithrio ystafelloedd mewn eiddo a rennir) yng Nghymru ym mis Mehefin 2025, wedi'u talgrynnu i lawr i ystyried yr amcangyfrif bod 20% o rheini wedi eu 'rhith-restru' [Cafodd y data ar gyfer Cymru eu cyrchu ar 31.07.2025 drwy] https://www.visitbritain.org/research-insights#explore-different-datasets-using-our-visualisations. Cyfrifir nifer y darparwyr yn seiliedig ar ragdybiaeth bod gan ddarparwr 'nodweddiadol' ddau safle llety ymwelwyr hunanddarpar.**

**Y gofyniad am y data**

35. **Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gael trwydded i weithredu llety hunanddarpar hunangynhwysol yng Nghymru. Bydd y data yn cael eu prosesu fel sy'n ofynnol yn unol â swyddogaethau a rhwymedigaethau statudol fel y nodir yn neddfwriaeth.**

36. **Dim ond gwybodaeth sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd a gaiff ei rhannu, yn unol ag egwyddorion lleihau data.**

**Sefyllfa bresennol y dechnoleg**

37. **Fel rheolydd data, mae Gweinidogion Cymru yn dilyn safonau diogelwch llym ac yn trin diogelwch data o ddifrif. Mae hyn yn cynnwys gweithdrefnau cadarn i ddiogelu gwybodaeth a gesglir.**

**Y rheswm dros brosesu**

38. **Prif bwrpas y data yw cefnogi'r gwaith o weinyddu'r cynllun trwyddedu. Bydd cyhoeddi gwybodaeth yn helpu ymwelwyr i ddeall pa lety yng Nghymru sydd wedi'i drwyddedu, beth mae hynny'n ei olygu, a theimlo'n hyderus i drefnu llety yng Nghymru. Yn ogystal, bydd yn darparu data a gwybodaeth i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i gefnogi datblygiad twristiaeth a meysydd polisi eraill yn y dyfodol.**

**Manteision prosesu data**

39. **Bydd cyhoeddi rhannau perthnasol o'r data yn ategu'r gofrestr gyhoeddus o ddarparwyr. Bydd dod â rhain ynghyd yn cynnig un ffynhonnell wybodaeth dryloyw, awdurdodol a dibynadwy i ymwelwyr a rhanddeiliaid eraill. Bydd rhoi gwybodaeth glir i ymwelwyr am ba lety sydd â thrwydded yn cefnogi**

[2] UK Business Counts - enterprises by industry and employment size band - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics

**effeithiolrwydd y broses drwyddedu ac yn cynnig mwy o hyder bod y llety yn bodloni amodau'r drwydded.**

40. **Mae'r gofrestr o ddarparwyr yn helpu i ddarparu gwybodaeth fwy cywir am lety ymwelwyr yng Nghymru. Bydd y data a gesglir o ganlyniad i drwyddedu yn atgyfnerthu hyn i wella'r broses o gasglu tystiolaeth ar gyfer unrhyw ymyriadau polisi yn y dyfodol. Bydd hyn naill ai ar y cyd ag arolygon casglu data presennol, neu yn eu lle. Yn benodol, bydd y gofyniad i gynnwys rhif cofrestru safle ym mhob deunydd hysbysebu llety ymwelwyr yn cefnogi uniondeb y gofrestr a'r drefn drwyddedu, gan sicrhau mwy o hyder yng nghywirdeb y gofrestr, a'i gwneud hi'n anoddach i ddarparwyr llety weithredu heb fodloni gofynion rheoleiddiol.**

**Cam 4: Ymgynghori**

41. **Mae Pennod 4 o'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi rhagor o fanylion ar yr ymgynghoriad a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Bil.**

42. **Rydym wedi ymgynghori â'r ICO ynglŷn â'r cynigion, yn fwyaf diweddar ar 18 Mawrth 2025. Trafodwyd pwysigrwydd cynnal asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data, a sut y bydd yn offeryn allweddol i asesu angenrheidrwydd a chymesuredd y cynigion. Mae wedi bod yn adnodd pwysig ar gyfer nodi risgiau posibl i hawliau a rhyddid unigolion, ac i nodi mesurau lliniaru i leihau'r risgiau sydd wedi'u nodi. Bydd cynhyrchu asesiad gweithredol manwl yn bwysig wrth sefydlu'r amddiffyniadau penodol mewn perthynas â phrosesu data a gesglir o dan drefn drwyddedu'r Bil.**

**Cam 5: Angenrheidrwydd a chymesuredd**

43. **Mae Gweinidogion Cymru wedi'u henwi fel yr awdurdod i gymryd cyfrifoldeb cyffredinol am y cynllun trwyddedu.**

44. **Elfen allweddol o egwyddorion dylunio'r Bil yw lleihau faint o ddata personol sy'n cael eu casglu. Mae hyn yn sicrhau bod proses lywodraethu data briodol ar waith lle mae casglu data personol yn gwbl angenrheidiol. Er enghraifft, trwy ategu'r gofrestr a grëwyd gan Ddeddf VARL, rydym yn anelu at osgoi casglu a phrosesu data ddwywaith.**

45. **Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau atodol am y cynllun, gan gynnwys ei weithdrefnau. Bydd y rheoliadau hyn yn destun ystyriaeth bellach a byddant yn cynnwys hysbysiad preifatrwydd priodol o dan Erthygl14 o GDPR y DU. Bydd hyn yn amlinellu sut mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio, er enghraifft i gynhyrchu ystadegau o wybodaeth na ellir adnabod unigolion ohoni a gyda phwy y gellir rhannu'r data.**

46. **Ni fydd data categori arbennig fel y disgrifir yn Erthygl 9 GDPR y DU yn cael eu casglu yn rheolaidd. Fodd bynnag, gallai ymchwiliad o ganlyniad i gamau gorfodi ddarganfod data categori arbennig, neu ddata sy'n ymwneud â throsedd. Mae'r gallu i gynnal ymchwiliadau o'r fath yn angenrheidiol i gefnogi uniondeb y gyfundrefn drwyddedu.**

47. **Y sail gyfreithlon ar gyfer y prosesu hwn yw Erthygl 6(1)(c) GDPR y DU, gan fod y Bil yn rhoi'r cyfrifoldeb cyfreithiol i'r awdurdod trwyddedu reoli'r cynllun trwyddedu. Gall Erthygl 6(1)(e) hefyd fod yn berthnasol.. Bydd yr awdurdod yn esbonio manylion rheoli'r cynllun mewn hysbysiadau preifatrwydd perthnasol er mwyn sicrhau tryloywder.**

**Cam 6: Nodi a rheoli risgiau**

48. **Bydd gweithredu'r cynllun trwyddedu yn ddarostyngedig i asesiad o'r effaith ar ddiogelu data ar wahân i nodi'r risgiau ar lefel weithredol agosach. Byddai'r rhain yn cynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â cholli data, tor diogelwch data a storio neu brosesu data mewn ffordd amhriodol.**

**Y risgiau a nodwyd**

| Disgrifiwch ffynhonnell y risg a natur yr effaith bosibl ar unigolion. Dylech gynnwys y risgiau cydymffurfio a chorfforaethol cysylltiedig yn ôl yr angen. | Y tebygolrwydd o niwed | Difrifoldeb y niwed | Y risg gyffredinol |
|---|---|---|---|
| Y Bil yn cynnwys gofynion casglu data nad oes eu hangen yn ymarferol | Isel | Canolig | Isel – rydym wedi defnyddio dull lleihau data a dim ond yr wybodaeth sy'n hanfodol i weithredu'r cynllun yr ydym yn ei chasglu. |
| Gallai cyhoeddi gwybodaeth darparwyr unigol arwain at adnabod pobl a allai wynebu risg | Isel | Uchel | Isel – rydym wedi cynnwys darpariaeth i ofyn am ganiatâd i gyhoeddi enw a/neu gyfeiriad cartref unigolyn, oni bai ei fod hefyd yn rhan o enw eu cwmni, neu'r eiddo y maent yn darparu llety ynddo yn y drefn honno, yn unol â'r dull a gymerwyd eisoes yn y Bil VARL. |

**Mesurau i leihau risgiau**

49. **Mae lleihau data wedi bod yn flaenoriaeth o ran dyluniad polisi ar gyfer y Bil. Rydym wedi ategu'r gofrestr fel y nodir yn y Ddeddf VARL ac wedi defnyddio technegau tebyg i'r rhai a ddefnyddir gan ddarnau eraill o ddeddfwriaeth.**

50. **Pan fydd prosesau gweithredol yn cael eu sefydlu, cynhelir asesiad i fonitro a lliniaru risgiau mewn perthynas â cholli data, tor diogelwch data, storio a phrosesu data, ac unrhyw risgiau eraill a nodwyd.**

51. **Mae cyfyngiad penodol wedi'i gynnwys yn y Bil i atal cyhoeddi enw a chyfeiriad cartref darparwr sy'n unigolyn (yn hytrach na chwmni, partneriaeth neu endid arall). Dim ond os yw'r person yn cydsynio, os yw ei enw yn rhan o enw'r cwmni, a/neu'r cyfeiriad yw'r cyfeiriad y maent yn darparu llety i ymwelwyr y gellir cyhoeddi gwybodaeth o'r fath. Wrth ddatblygu prosesau gweithredol, ystyrir sut i sicrhau bod darparwyr yn deall eu hawliau ac yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ddylid gofyn i'w gwybodaeth gael ei chadw yn ôl, yn enwedig i'r rhai nad ydynt eisoes wedi cydsynio i'r wybodaeth honno gael ei chyhoeddi o dan y gweithdrefnau yn y Ddeddf VARL.**

**Cam 7: Crynodeb o'r prif egwyddorion data**

52. **Mae'r crynodeb hwn yn nodi'r prif egwyddorion yr ydym wedi'u cymhwyso i'r data a fydd yn cael eu creu gan y Bil hwn.**

**A fydd y data yn cael eu rhannu?**

53. **Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru rannu gwybodaeth gyda'r WRA a rheoleiddwyr eraill i gefnogi gweithredu'r cynllun a chefnogi rheoleiddio ar y cyd effeithiol lle bo angen.**

54. **Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cyhoeddi rhannau o'r data. Bydd hyn yn caniatáu i ymwelwyr wybod a yw'r llety maen nhw'n aros ynddo wedi'i drwyddedu. Bydd hefyd yn caniatáu i awdurdodau lleol ddefnyddio setiau data agregedig at ddibenion dadansoddi. Bydd hyn yn lleihau'r angen am borth rhannu data a byddant yn destun asesiadau pellach.**

**A yw'r cynnig yn gofyn am gytundeb rhannu data?**

55. **Ddim ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd angen cytundebau rhannu data wrth weithredu'r Bil a byddant yn ddarostyngedig i'r trefniadau rheoli a llywodraethu data arferol rhwng y cyrff cyfrifol.**

**A yw'r gwasanaethau cyfreithiol wedi cadarnhau bod y sail a amlinellwyd uchod yn darparu'r porth statudol angenrheidiol ar gyfer prosesu data**

56. **Mae hon yn ddeddfwriaeth newydd ac felly mae wedi cael ei datblygu rhwng swyddogion a chyfreithwyr i sicrhau bod pyrth angenrheidiol er mwyn rhannu data.**

**A fydd y cynnig yn cynnwys dulliau newydd, neu ddulliau sydd wedi newid yn sylweddol, o brosesu data personol**

57. **Mae'r gofyniad yn y Bil hwn i lety ymwelwyr gael eu trwyddedu yn newydd. Bydd angen prosesu data personol am unigolion.**

**A fydd y data personol yn cael eu cydgrynhoi, eu cysylltu neu eu paru â data o ffynonellau eraill?**

58. **Bydd yr wybodaeth a dderbynnir fel rhan o'r broses drwyddedu yn cael ei chysylltu neu baru, lle bo'n bosibl, â'r wybodaeth bresennol a gedwir yn y gofrestr genedlaethol o ddarparwyr llety ymwelwyr. Bydd hysbysiadau preifatrwydd y mae'r WRA, fel yr awdurdod cofrestru, yn gyfrifol amdanynt yn cael eu diwygio i adlewyrchu hyn.**

**A fydd y data personol yn cael eu defnyddio ar gyfer gwneud penderfyniadau awtomatig?**

59. **Nid yw'r Bil yn nodi unrhyw ofynion ar gyfer gwneud penderfyniadau awtomataidd. Bydd angen i'r awdurdod trwyddedu wneud penderfyniadau ynghylch a yw'r gofynion cais yn cael eu bodloni ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd. Wrth i weithdrefnau gweithredol gael eu datblygu, gellir ystyried a all offer awtomataidd helpu i gynnig gwasanaeth trwyddedu gwell a mwy effeithlon trwy, ee sganio tystysgrifau diogelwch nwy a chroesgyfeirio**

**â'r Gofrestr Diogelwch Nwy, ond bydd yr awdurdod yn parhau i fod yn gyfrifol am unrhyw benderfyniadau a wneir.**

**A yw'r cynnig yn cynnwys polisïau/arferion newydd, neu rai sydd wedi newid, o ran casglu, cadw neu rannu data/arferion data**

60. **Bydd angen polisïau ac arferion newydd, gan gynnwys hysbysiadau preifatrwydd a chyfnodau cadw, ar yr holl ddata sy'n cael eu prosesu. Bydd y rhain yn ddarostyngedig i asesiadau pellach a gynhelir gan yr awdurdod trwyddedu wrth i ddarpariaeth weithredol gael ei ddatblygu.**

**A fydd y cynnig yn cynnwys prosesau newydd, neu rai sydd wedi newid, o ran rheoli neu ddilysu hunaniaeth?**

61. **Mae'n debygol y bydd yn ofynnol i ddarparwyr ddefnyddio dull dilysu aml-ffactor i gyrchu eu cyfrif cofrestru WRA er mwyn iddynt wneud cais am drwydded. Bydd hyn yn ddarostyngedig i asesiadau pellach a gynhelir gan yr awdurdod trwyddedu wrth i ddarpariaeth weithredol gael ei ddatblygu.**

**A fydd y cynnig yn fodd i adnabod unigolion a oedd yn anhysbys yn flaenorol?**

62. **Bydd y gofrestr gyhoeddus fel y'i manylir yn y Ddeddf VARL yn golygu y bydd rhai manylion am ddarparwyr eisoes yn gyhoeddus. Byddai llawer hefyd ar gael oherwydd natur eu busnesau llety ymwelwyr. Mae'r Bil hwn yn creu gofyniad newydd i gyhoeddi gwybodaeth mewn perthynas â llety trwyddedig. O dan Ddeddf VARL, dim ond pan fydd y person yn rhoi caniatâd y cyhoeddir enwau a chyfeiriadau cartref—oni bai bod yr enw'n rhan o enw busnes neu'r cyfeiriad yn gyfeiriad y llety ymwelwyr (yn yr achos hwnnw bydd y data eisoes ar gael i'r cyhoedd drwy'r Ddeddf VARL).**

**Beth yw'r sail statudol i brosesu'r data?**

63. **Bydd y Bil yn ddeddfwriaeth sylfaenol yng Nghymru, gyda darpariaethau yn ymwneud â gweinyddu'r drwydded. Fodd bynnag, bydd angen nodi rhai elfennau gweinyddol mewn is-ddeddfwriaeth.**

**A yw'r cynnig yn gofyn am gontract rhwng Llywodraeth Cymru fel rheolydd data a phrosesydd trydydd parti?**

64. **Bydd y pwerau trwyddedu yn un o swyddogaethau Gweinidogion Cymru. Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud trefniadau i alluogi asiantaethau eraill i gyflawni swyddogaethau ar eu rhan. Felly, er na fydd angen prosesydd trydydd parti o reidrwydd, gellid gwneud penderfyniadau gweithredol i ymgysylltu ag un. Byddai unrhyw benderfyniad o'r fath yn ddarostyngedig i'w asesiad ei hun.**